# Grŵp Rhanddeiliaid y Safle / Site Stakeholder Group



Safle Wylfa – Adroddiad i Grŵp Rhanddeiliaid y Safle
Stuart Law, Cyfarwyddwr y Safle


Wylfa Site – Report to Site Stakeholder Group
Stuart Law Site Director

17/10/24

Wylfa

NDA | NRS Nuclear Restoration Services

# Lawnsio ein Strategaeth 10 mlynedd / Launching our 10yr strategy



# Wylfa

## Waste target contributions 2024/25

Low Active Waste consignments

**3 consignments**

## Milestones 2024/25

| Q1 | Q3 |
|---|---|
| Turbine Hall: Complete mechanical air gapping in cable tunnels TG 47, 89, 90 and 91 | Electrical Overlay System (EOS): Permanent disconnection and decabling of all redundant cables within 2RG1-4 cable tunnel, in preparation for installation of new EOS cabling |

*As per 2023 NDA Business Plan.

**In line with Scottish policy, waste will be stored on these sites beyond this date.

***The current plan is that two research reactors will be dismantled at a later date.

## Site specific strategies

Sites

| | Circa 2040 | Circa 2050s | Circa 2060s | Circa 2070s | Circa 2080s |
|---|---|---|---|---|---|
| **Continuous** | Winfrith | Trawsfynydd<br>Hunterston A**<br>Harwell***<br>Dungeness A | Hinkley A<br>Chapelcross** | | |
| **Deferral** | | | Berkeley | Sizewell A | Wylfa<br>Oldbury<br>Bradwell<br>Dounreay** |

**Earliest completion date for site clearance***

## Our values

Care

Innovation

Pride

Commitment

Respect

Collaboration

# Ystadegau diogelwch / EHSS&Q statistics

- Cyfradd cyfanswm y digwyddiadau a gofnodwyd (TRIR): 0.00
- Cyfradd achosion diwrnodau i ffwrdd (DACR): 0.00
- Nifer o ddiwrnodau ers damwain colli amser: 2311 diwrnod (o'r 8fed o Hydref 2024)



- Total recorded incident rate (TRIR): 0.00
- Days away case rate (DACR): 0.00
- No. of days since a lost time accident: 2311 days (as of 8th October 2024)

# Pobl / People

### Un Tîm Wylfa

- 195 staff NRS ar y safle (mae hyn yn cynnwys 7 gweithiwr asiantaeth a 6 prentis).
- 76 staff NRS wedi lleoli yn yr Hwb (Swyddogaethau Cymorth Canolog). Mae hyn yn cynnwys gweithwyr a gyflenwir gan gontractwr ac un aelod gweithredol.
- Wedi cyflwyno'r strategaeth 10 mlynedd newydd.
- Wedi cwblhau arolwg staff blynyddol.

### Wylfa One Team

- 195 NRS site staff (this includes seven Agency Supplied Workers and six apprentices)
- 76 NRS staff based at the Hub (Central Support Functions). This includes four Contractor Supplied Workers and one executive member.
- Site introduced to new 10yr strategy.
- Organisation has recently completed its annual staff survey.



# Pobl / People

**Prentisiaid**

- Mae’r mewnlif prentisiaid ar gyfer mis Medi wedi cwblhau, ac mae un prentis trydanol wedi cychwyn gyda ni.
- Tri phrentis wedi diogelu swyddi parhaol ar y safle.

**Cefnogi gweithlu Wylfa**


- Yn y broses o baratoi Cynllun Gweithlu Strategol ar gyfer y 4 mlynedd nesaf fel rhan o’r broses Cynllunio Busnes blynyddol.
- Parhau i gefnogi Ceisiadau Datblygu Gyrfa er mwyn uwchsgilio ac ail sgilio y gweithlu presennol, gan weithio ar y cyd gyda cholegau lleol.

**Apprentices**

- The apprentice intake for September has been completed, and one electrical apprentice has started with us.
- Three apprentices have secured ongoing permanent employment on site.

**Supporting the Wylfa workforce**

- Currently preparing Strategic Work Force Plan (SWFP) for next 4 years as part of annual Business Planning process
- Continuing to support Career Development Requests to upskill and reskill current workforce, working in conjunction with local colleges.





# Diweddariad Safle / Site update:
## Rhaglen datgomisiynu / Decom programme

### System troshaen drydanol

Darparu system dosbarthu drydanol annibynnol newydd a fydd yn cwrdd â safonau modern, yn ogystal â bod yn fwy priodol ar gyfer safle gohirio.

Bydd hyn yn galluogi'r trawsnewidyddion gorsaf sydd yn heneiddio i roi'r gorau i weithredu, y dilyniant o weithgareddau dymchwel y neuadd tyrbin ac i Wylfa ddatgysylltu o'r system grid.

**OSD Cwmpasu gwaith galluogi**

- Datgysylltiad Parhaol: Mae pob un o'r 18 system wedi'u tagio mewn twnnel 2RG1-4 wedi'u datgysylltu o'u switsfyrddau. Bydd y tair system sy'n weddill yn cael eu diddymu erbyn diwedd mis Hydref.
- Tynnu cebl: Mae tua 14,000kg o geblau wedi'u tynnu ac ailgylchu o dwnnel 2RG1-4,ac o gwmpas1,500kg o bibellau diffodd tân sefydlog hefyd wedi'u tynnu. Gwaith yn parhau ar y systemau sy'n weddill.

**Cyflenwad newydd i'r safle**

- Hawddfraint gyfreithiol a gweithred wedi cwblhau
- Mae'r amserlen ar gyfer gosod pibellau newydd ar hyd y ffordd yn cael ei datblygu.


### Electrical overlay system

Provide a new and independent electrical distribution system that will meet modern standards, as well as be more appropriate for a deferral site.

This will enable the ageing station transformers to be stood down, progression of turbine hall demolition activities and for Wylfa to be disconnected from the grid system.

**OSD Enabling Scope**

- Permanent Disconnection: All 18 tagged systems in tunnel 2RG1-4 have been disconnected from their switchboards. The remaining three systems will be decabled by the end of October.
- Cable Removal: About 14,000kg of cables have been removed and recycled from tunnel 2RG1-4, and circa1,500kg of fixed jet fire pipework also removed. Work continuing on the remaining systems.



**New Supply to Site**

- Legal easement and deed have been completed.
- The schedule for installing new ductwork along the approach road is being advanced.

# Diweddariad Safle / Site update:
## Rhaglen datgomisiynu / Decom programme



### Tynnu asbestos o’r adweithydd

Defnyddiwyd asbestos yn helaeth o fewn yr adweithyddion ac adeiladau offer adweithydd. Mae’r prosiect yma yn cefnogi strategaeth y cwmni i leihau'r perygl o asbestos cyn mynd i mewn i’r cyfnod ohirio.

- Prosiect hunan-berfformio.
- Giât 1 wedi cymeradwyo gan IRP yn Orffennaf.
- Dechrau arolygon yn Adweithydd 1 a’r REB.
- Arolygon o REB 175 troedfedd a 123 troedfedd wedi cwblhau.
- Arolygon o’r 160 troedfedd bron â gorffen.
- Dechrau arolygon o 140 troedfedd.

### Reactor asbestos removal

Asbestos was extensively used within the reactors and reactor equipment buildings. This project supports the company strategy for reducing the asbestos hazard prior to entry into the deferral priod.

- Self-perform project.
- Gate 1 approval at IRP in July.
- Commencement of surveys in Reactor 1 and REB.
- Surveys of REB 175ft and 123ft complete.
- Surveys of 160ft nearing completion.
- Commence surveys of 140ft.

NDA | NRS Nuclear Restoration Services

# Diweddariad Safle / Site update:
## Rhaglen datgomisiynu / Decom programme



### Ynysu’r neuadd tyrbin

Bwriad y prosiect yma yw ynysu'r Neuadd Tyrbin a fydd yn cynnwys creu bylchau mewn gwasanaethau (yn fecanyddol ac yn drydanol) i mewn ac allan o’r neuadd dyrbin gan gynnwys adeiladau atodol o fewn y ffin PC, a daw wedyn yn safle adeiladu

- R2 pont bibell – Parhau i greu bylchau o’r pibellau turio
- Adnabod ceblau - Arolygiadau pibellau yn parhau, gyda 10 allan o 28 wedi'u cwblhau.
- Dylunio bylchau o’r bont bibell - Mae gwaith dylunio manwl yn mynd rhagddo
- Dylunio bylchau o’r Gilfach / Allfa CW - Mae paratoadau ar gyfer arolygon ar y safle ar y gweill; mae angen trwydded forol cyn y gall yr ail arolwg ddechrau.
- Ailgyflenwi cyfarpar carthion - Mae'r holl waith tyllu a gosod pibellau wedi'i gwblhau, ac mae'r gosodiadau trydanol cyntaf wedi dechrau.

### Turbine hall islanding

This project is to isolate the Turbine Hall  and will include air gapping of services (both mechanically and electrically) into and out of the T/H including the Ancillary Buildings within the proposed PC boundary area, which will then become the ‘construction site.

- R2 pipebridge - Continuing air gapping and capping of small bore pipework.
- Cable identification - Duct inspections ongoing, with 10 out of 28 completed.
- Pipe bridge air gapping design- Detailed design work is ongoing
- CW Inlet/Outlet air gapping design- Preparations for on-site surveys are in progress; a marine license is needed before the second survey can start
- Sewage plant resupply - All excavation and ductwork installation is complete, and first electrical installations have started.

# Diweddariad safle / Site update:
## **Rhaglen Gwastraff /** Waste Programme

### Tynnu sgip DSC4

Prosiect cyntaf o'r fath yn Wylfa er mwyn adfer materion etifeddol a fewn y gell storio.

- Datblygu strategaeth fasnachol sydd yn ystyried Rheoliadau Caffael Cyhoeddus.
- Gwaith galluogi diweddar wedi cynnwys creu mynediad newydd i'r ystafell Mesanîn Dwyrain o'r DSC4 drwy gael gwared â'r panel gwaith maen, cyfanswm o 27-tunnell, a gosod drws dwbl parhaol.
- Bydd y mynediad yma yn hwyluso mynediad gweithredwr i mewn i'r DSC4 a chynorthwyo offer i dynnu dur.
- Nodwyd Uwch Reolwr Prosiect, Mike Hughes-Roberts, y cyflawniad o gael gwared â'r gwaith maen fel ymdrech gweithredol llwyddiannus.
- Mae'r prosiect wedi annog gwaith arloesol a datrys problemau dynamig, enghreifftir trwy addasu cafn rwbel i drin tafluniadau brics 60mya.
- Mae'r tîm bellach yn canolbwyntio ar gael gwared â chafn y pen dwyrain ar y sylfaen, ac wedi gwneud cynnydd cyson gyda gweithgareddau galluogi.

### Dry store cell 4 (DSC4) skip removal

A first-of-its-kind project at Wylfa aims to remediate legacy issues in the storage cell.

- Developed a commercial strategy which has taken on board the new Public Procurement Regulations.
- Recent enabling works included creating new access to the East Mezzanine room of DSC4 by removing a 27-ton masonry panel and installing a permanent double door interface.
- This access will facilitate operator entry into DSC4 and assist equipment in steel removal.
- Senior Project Manager, Mike Hughes-Roberts, noted the milestone of removing the masonry panel as a successful collaborative effort.
- The project has encouraged innovation and dynamic problem-solving, exemplified by modifying a rubble chute to handle 60mph brick projectiles.
- The team is now focused on removing the East end charge chute onto the pile cap and has made steady progress with enabling activities.





# Diweddariad safle / Site update:

## **Rhaglen Gwastraff /** Waste Programme

### Cyfleuster prosesu HAW / LAW

Ar hyn o bryd, nid oes lleoliad addas ar gyfer prosesu a phacio gwastraff actif uwch ac is (HAW / LAW) ar y safle.

- Wedi gweithio gyda chontractwr er mwyn cwblhau amcangyfrif manyldeb dylunio ac adeiladu (D&A), sydd angen cael ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.
- Y cynllun yw cwblhau'r cynllun dylunio delfrydol a'r manyldeb D&A, wedyn gohirio'r prosiect am oddeutu dwy flynedd, fel yr amlinellwyd yn y datblygiadau cynllun busnes

### HAW / LAW processing facility

Currently, there is no suitable location for the processing and packing of Higher and Lower Active Wastes (HAW/LAW) on site.

- Worked with contractor to finalise an estimate for the Design & Build (D&B) specification, which needs to be completed by the end of the fiscal year.
- The plan is to finish the optimized scheme design and the D&B specification, then pause the project for about two years, as outlined in the business plan developments.

### Prosiect adlaw ILW

- Wedi cwblhau rhan 2 o'r gweithdy opsiynau.
- Dau opsiwn wedi cael ei ddewis er mwyn symud ymlaen, mae'r ddau angen amserlen gweithgarwch manwl i sicrhau llwyddiant.
- Addasu'r rhaglen gweithredoliant yn seiliedig ar ddatblygiadau a'n anelu at ddefnyddio offer oddi ar y silff i symleiddio'r broses fasnachol.

### ILW retrieval project

- Finished phase 2 of the optioneering workshop.
- Two options were selected to move forward, both needing a detailed activity schedule to ensure success.
- Adjusting the implementation schedule based on developments and aiming to use off-the-shelf equipment to simplify the commercial process.

# Diweddariad safle / Site update:


## **Rhaglen Gwastraff /** Waste Programme


### Cyfleuster prosesu gwastraff


- Mae’r adeilad tu hwnt i hanfodion dylunio bellach yn wag ac yn barod i ddatgymalu
- Mae cwmpas manwl ar gyfer cyflenwadau trydanol a system dân ar gyfer y cyfleuster clirio newydd wedi'i greu a'i anfon ar gyfer amcangyfrifon cost.
- Ymgynghoriad cyn ymgeisio yn ymwneud a’r cais cynllunio ffurfiol wedi mynd yn fyw ym mis Awst, yn dilyn yr ymgynghoriad cyn ymgeisio mae’r safle wedi cyflwyno cais cynllunio llawn i’r awdurdod lleol.

### Waste clearance facility

- The Beyond Design Basics building is now completely empty and ready for dismantling.
- A detailed scope for electrical and fire system supplies for the new clearance facility has been created and sent out for cost estimates.
- A pre application consultation (PAC) associated with formal planning went live in August, following this PAC the site has now submitted a full planning application to the local authority.



# Diweddariad safle / Site update:
## **Rhaglen Gwastraff /** Waste Programme

### Cyfleuster storfa DCIC

Bwriad y prosiect yma yw adeiladu a chomisiynu yn anweithredol cyfleuster Ssorio dros dro ar gyfer storio dim mwy na 24 o gynhwysyddion haearn bwrw hydwyth, wedi ei lwytho gyda gwastraff lefel canolradd, am gyfnod o hyd at 120 o flynyddoedd.

Mae codi’r cyfleuster yma yn angenrheidiol gan nad oes yno gyfleuster sy’n bodoli ar y safle ar hun o bryd sy’n addas ar gyfer darparu’r cynhwysyddion haearn bwrw hydwyth ac sydd hefyd yn cydymffurfio gydag amodau angenrheidiol amgylcheddol.

- Mae amserlen gweithredu wedi'i chreu, gan symleiddio'r broses fasnachol.

### DCIC storage facility

The project aim is to construct and inactively commission an Interim Storage Facility (ISF) for storage of no greater than 24 cuctile cast iron containers (DCICs), loaded with intermediate level waste (ILW), for a period of up to 120 years.

The construction of this facility is necessary as no other existing on-site facility is suitable to accommodate DCICs compliantly under the necessary environmental conditions.

- An updated implementation schedule has been created, simplifying the commercial process.

# Meysydd i'w gwella / Areas for improvement

- **Canlyniadau uchel o Legionella**: Mae trefn fflysio yn ei le ac o dan adolygiad cyson. Ble mae canlyniadau wedi awgrymu risg dyrchafedig, mae’r cyfleusterau yna wedi cael ei dynnu allan o wasanaeth. Nid oes yna faterion iechyd brys ar y safle.

- **Diraddio cyfarfpar a methiannau offer**:Nodwyd diraddio a chyrydiad rhai strwythurau. Bydd mwy o wyliadwriaeth, diffyg a rheoli asedau yn helpu i flaenoriaethu gyda naill ai atgyweirio neu ddymchwel. Mae adolygiad a rhesymoli o’r larymau blaenoriaeth hefyd ar y gweill.

- **Hysbysiad gorfodi ONR**: gwelliannau ar gyfer rhai systemau sydd eu hangen.

- **High Legionella results**: An enhanced flushing regime is currently in place and under constant review. Where results have indicated an elevated risk, those facilities have been taken out of use. There is no immediate health issues on site.

- **Plant degradation & equipment failures**: The degradation & corrosion of some structures have been noted. Increased vigilence, defect & asset management will assist with prioritising repair or removal. The review & rationalisation of priority alarms is also underway.

- **ONR Enforcement notice:** improvements for some systems required.

# Ymarfer da / Good practice

**Drwy gydol mis Mehefin, cefnogodd safle Wylfa ymgyrch 30 Diwrnod Gwyllt yr Ymddiriedolaeth Natur, gan annog pobl i gysylltu â byd natur.**

Roedd yr ymgyrch yn cynnwys digwyddiadau amrywiol fel cinio a dysgu, teithiau cerdded safle, a gweithgareddau ar-lein, yn hyrwyddo effaith gadarnhaol byd natur ar bobl a'r amgylchedd.

Digwyddiad nodedig oedd taith gerdded botaneg yn Nhrwyn yr Wylfa, lle darganfu cyfranogwyr dros 42 rhywogaeth o flodau gwyllt, gan gynnwys darganfyddiadau prin fel llin golau a meillion clymog.

Arweiniodd y darganfyddiadau hyn at newidiadau mewn arferion amgylcheddol:

- **Addasiadau Samplu Amgylcheddol**

Penderfynodd y Tîm Samplu Amgylcheddol gynnal yr holl samplo yn Nhrwyn yr Wylfa ar droed yn hytrach na defnyddio cerbydau 4x4. Nod y newid hwn yw lleihau'r difrod posibl i'r ardaloedd ecolegol pwysig a ddarganfuwyd yn ystod yr ymgyrch.

- **Arferion Diogelu Radiolegol**

Lleihawyd amlder samplo gwymon (Porphyra Umbilicalis) mewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Mae'r addasiad hwn yn helpu i leihau difrod a diogelu'r amrywiaeth gwasgaredig hwn o wymon.

Mae’r newidiadau hyn yn adlewyrchu ymrwymiad cryf i warchod a gwella’r amgylchedd naturiol yn Wylfa, gan ddangos effaith gadarnhaol yr ymgyrch 30 Diwrnod yn Wyllt.



**Throughout June, Wylfa site supported the Wildlife Trust’s 30 Days Wild campaign, encouraging people to connect with nature.**

The campaign included various events like lunch and learns, site walks, and online activities, promoting the positive impact of nature on people and the environment.

A notable event was a botany walk at Wylfa Head, where participants discovered over 42 species of wildflowers, including rare finds like Pale flax and Knotted clover.

These discoveries led to changes in environmental practices:

- **Environmental Sampling Adjustments**

The Environmental Sampling Team decided to conduct all sampling at Wylfa Head on foot instead of using 4x4 vehicles. This change aims to minimize potential damage to the important ecological areas discovered during the campaign.

- **Radiological Protection Practices**

The frequency of sampling seaweed (Porphyra Umbilicalis) in a Site of Special Scientific Interest (SSSI) was reduced. This adjustment helps to minimize damage and safeguard this sparse variety of seaweed.

These changes reflect a strong commitment to protecting and enhancing the natural environment at Wylfa, demonstrating the positive impact of the 30 Days Wild campaign

# Cynaliadwyedd/ Sustainability

Mae grŵp cynaliadwyedd Wylfa yn parhau i gyfarfod o leiaf bob chwarter, a thros y misoedd diwethaf mae wedi ysgogi'r gwelliannau canlynol:

**Glanhau Traeth:**
Cymerodd gwirfoddolwyr o Wylfa ran mewn ymgyrch glanhau traeth yn Aberffraw ar Fedi 3ydd.

**Arddangosfa Ymwybyddiaeth Amgylcheddol:**
Roedd arddangosfa y tu allan i'r ffreutur yn cynnwys deiseb yn annog cwmnïau dŵr i wella eu systemau carthffosiaeth.

Gwelodd yr arddangosfa gyfranogiad gweithredol gan staff a chontractwyr.

**Gweithdy Ôl Troed Carbon:**
Cynhaliodd y grŵp weithdy ar gyfrifo a lleihau olion traed carbon.

Roedd y sesiwn yn cynnwys elfen ryngweithiol lle bu cyfranogwyr yn cyfrifo eu hôl troed carbon eu hunain ac yn trafod y canlyniadau.

Amlygodd y gweithdy bwysigrwydd ymwybyddiaeth wrth leihau allyriadau carbon.

**Llif Gwastraff y gellir ei gompostio:**
Mae ffrwd wastraff y gellir ei chompostio wedi'i hychwanegu ym mhob ystafell egwyl.

Nod y fenter hon yw lleihau'r gwastraff bwyd a anfonir i safleoedd tirlenwi, gan hyrwyddo arferion rheoli gwastraff mwy cynaliadwy.

Mae'r buddion yn cynnwys lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o safleoedd tirlenwi a chreu compost llawn maetholion ar gyfer gwella'r pridd.

Wylfa's sustainability group are continuing to meet at least every quarter, and over the past few months have driven the following improvements:

**Beach Clean-Up:**
Volunteers from Wylfa participated in a beach clean-up at Aberffraw beach on September 3rd.

**Environmental Awareness Display:**
A display outside the canteen featured a petition urging water companies to improve their sewage systems.

The display saw active participation from staff and contractors.

**Carbon Footprint Workshop:**
The group conducted a workshop on calculating and reducing carbon footprints.

The session included an interactive component where participants calculated their own carbon footprints and discussed the results.

The workshop highlighted the importance of awareness in reducing carbon emissions.

**Compostable Waste Stream:**
A compostable waste stream has been added to each mess room.

This initiative aims to reduce food waste sent to landfill, promoting more sustainable waste management practices.

Benefits include reducing greenhouse gas emissions from landfills and creating nutrient-rich compost for soil improvement.



## Ysbrydoli'r Genhedlaeth Nesaf: Ymweliadau STEM yn Wylfa

Wrth i'r tymor newydd ddechrau, rydym yn edrych ymlaen at agor ein giatiau yn safle Wylfa ar gyfer cyfres ysbrydoledig o ymweliadau STEM, wedi'u hanelu at fyfyrwyr TGAU a Safon Uwch! Ein cenhadaeth? I danio angerdd am arloesi ac arddangos y byd diddorol o datgomisiynu niwclear.

Ar Hydref 23, 2024, byddwn yn cychwyn y fenter hon gyda myfyrwyr Ysgol Syr Thomas Jones. Allwn ni ddim disgwyl i'w croesawu a rhannu'r cyfleoedd gyrfa anhygoel yn ein maes— o wyddonwyr a pheirianwyr i amgylcheddwyr a chrewyr cynnwys.

Mae yna le i bawb yn y diwydiant hanfodol hwn! Drwy gydol y flwyddyn, byddwn yn parhau i groesawu myfyrwyr ar y dyddiadau canlynol:

**27/11/2024, 18/12/2024, 21/01/2025, 12/02/2025, 19/03/2025, 09/04/2025, 14/05/2025 a 18/06/2025.**

Mae'r ymweliadau hyn yn fwy na theithiau; maent yn gyfle i ymgysylltu, ysbrydoli a dangos i fyfyrwyr yr effaith y gallant gael ym myd ynni niwclear. Trwy arddangos y rolau amrywiol o fewn datgomisiynu, credwn y gallwn annog arloeswyr yfory i ymuno â ni i greu dyfodol mwy diogel a mwy cynaliadwy.

Cadwch lygad am ddiweddariadau ac uchafbwyntiau o'n hymweliadau! Gadewch i ni ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf gyda'n gilydd!

## Inspiring the Next Generation: STEM Visits at Wylfa

As the new term begins, we're excited to open our gates at the Wylfa site for an inspiring series of STEM visits, aimed at GCSE and A-Level students! Our mission? To ignite passion for innovation and showcase the fascinating world of nuclear decommissioning.

On October 23, 2024, we'll kick off this initiative with students from **Ysgol Syr Thomas Jones**. We can't wait to welcome them and share the incredible career opportunities in our field—from scientists and engineers to environmentalists and content creators.

There's a place for everyone in this vital industry! Throughout the year, we'll continue to host students on the following dates:

**27/11/2024, 18/12/2024, 21/01/2025, 12/02/2025, 19/03/2025, 09/04/2025, 14/05/2025 and 18/06/2025.**

These visits are more than just tours; they're an opportunity to engage, inspire, and show students the impact they can make in the world of nuclear energy. We believe that by showcasing the diverse roles within decommissioning, we can encourage the innovators of tomorrow to join us in creating a safer and more sustainable future.

Stay tuned for updates and highlights from our visits! Let's inspire the next generation together!



## Ymweliadau STEM diweddar

Ym mis Gorffennaf, cynhaliodd Wylfa dros 20 o fyfyrwyr PhD o Ganolfannau Hyfforddiant Doethurol Niwclear ac 11 o fyfyrwyr ysgolion uwchradd o ysgolion lleol.

Nod yr ymweliadau oedd eu haddysgu am hanes Wylfa mewn cynhyrchu trydan a'i hymdrechion datgomisiynu presennol.

Aeth y myfyrwyr ar daith o amgylch y safle, dysgu am y gwaith ddatgomisiynu, ac archwilio cyfleoedd gyrfa gyda NRS.

Amlygodd Ffion Morris, y Rheolwr Peirianneg a'r arweinydd STEM, bwysigrwydd yr ymweliadau hyn wrth hyrwyddo'r diwydiant a helpu pobl ifanc i wneud dewisiadau gyrfa wybodus.

## Recent STEM visits

In July, Wylfa hosted over 20 PhD students from Nuclear Centres of Doctoral Training and 11 secondary school students from local schools.

The visits aimed to educate them about Wylfa's history in electricity generation and its current decommissioning efforts.

The students toured the site, learned about decommissioning work, and explored career opportunities with NRS.

Ffion Morris, the Engineering Manager and STEM lead, highlighted the importance of these visits in promoting the industry and helping young people make informed career choices.







**Tîm NRS Wylfa yn gwirfoddoli yn Nhyddyn Môn/ NRS Wylfa team volunteer at Tyddyn Môn**

Yn ddiweddar mae tîm Prosiectau Gwastraff Wylfa a Thîm Gweithredol Safleoedd wedi gwirfoddoli yn Nhyddyn Môn, elusen sy'n cefnogi oedolion ag anableddau dysgu ar Ynys Môn.

Wedi'i drefnu trwy Raglen Wirfoddoli'r NRS a Neighbourly, canolbwyntiodd y timau ar ail-orchuddio twnnel polythen ar gyfer y gaeaf a gwella gofod awyr agored cerddoriaeth synhwyraidd.

Nod eu hymdrechion oedd gwella cyfleusterau'r elusen, gan feithrin amgylchedd cefnogol i'w thrigolion. Amlygodd y diwrnod bwysigrwydd ymgysylltu â'r gymuned a gadawodd gwirfoddolwyr yn teimlo'n fodlon gyda'u cyfraniadau.

Dywedodd Dr Michelle Freeman, Prif Weithredwr Tyddyn Môn:

"Ni ddylid diystyru'r gwaith a gyflawnwyd gan y grŵp. Mewn un diwrnod, mae wedi creu dwy ystafell ddosbarth ychwanegol newydd ar gyfer y myfyrwyr, a fydd yn helpu i greu mwy o gyfleoedd iddynt ffynnu a pharhau i ddysgu."

The Wylfa Waste Projects team and Sites Executive Team volunteered at Tyddyn Môn, a charity supporting adults with learning disabilities on the Isle of Anglesey.

Organised through the NRS Volunteering Programme and Neighbourly, the teams focused on re-sheeting a polytunnel for winter and enhancing a sensory music outdoor space.

Their efforts aimed to improve the charity's facilities, fostering a supportive environment for its residents. The day highlighted the importance of community engagement and left volunteers feeling fulfilled by their contributions.

Dr Michelle Freeman, CEO of Tyddyn Môn, commented:

"The work achieved by the group should not be underestimated. In the space of one day, it has created two new additional classrooms for the students, which will help create greater opportunities for them to thrive and continue to learn."







# NRS Wylfa yn Sioe Môn / NRS Wylfa at Anglesey show

Cafodd Wylfa amser gwych ym mhabell Menter Môn yn ystod Sioe Môn, gan amlygu eu llwyddiannau diweddar o ran gwaith datgomisiynu.

Cafodd ymwelwyr gyfle i gwrdd â'r tîm a dysgu mwy am genhadaeth NRS i ddatgomisiynu safleoedd niwclear ac ymchwil  cenhedlaeth gyntaf ar draws y DU yn ddiogel.

Wylfa had a fantastic time at the Menter Mon marquee during the Sioe Môn – Anglesey show, highlighting their recent decommissioning success stories.

Visitors had the chance to meet the team and learn more about NRS's mission to safely decommission the first generation nuclear and research sites across the UK.
















# NRS economiadd-gymdeithasol / NRS socio-economics

## Cyllideb blwyddyn ariannol 2023/24 / Funding financial year 2024/25

- Cyllid economaidd cymdeithasol yn parhau i fod yn £1.1m yn flynyddol ar draws y 12 safle, gyda £6,000 fesul safle ar gyfer ceisiadau cymydog da.

- £1.02m wedi ymrwymo yn barod, £132,000 o hynny i gefnogi prosiectau o fewn cymuned Wylfa.

- £36,000 ychwanegol o gyllid NDA - £300,000 ar gyfer cefnogaeth barhaus i'r Prosiect Ymchwil Nodweddai Morol Morlais a £60,000 ar gyfer Tîm Carbon Isel MSParc (Mawrth- Awst 2024).




---

- NRS socio-economic funding remains at £1.1m annually across the 12 sites, with £6,000 per site for good neighbour level.

- £1.02m committed to date, £132,000 of which is supporting projects in Wylfa's communities.

- An additional £360,000 NDA funding - £300,000 for continued support for the Morlais Marine Characterisation Research Project and £60,000 for MSParc Low Carbon Team (March-August 2024)

Am gwybodaeth pellach neu i wneud cais ewch i / For further information or to apply visit:
https://www.gov.uk/government/collections/nrs-working-with-our-communities

# NRS economiadd-gymdeithasol / NRS socio-economics

## Cyngor Cymuned Rhosybol / Rhosybol Community Council

Wedi derbyn £1,000 tuag at ddigwyddiad Diwrnod Coffa D Day wedi cynnal ar Fynydd Parys, yn nodi’r 80 mlwyddiant.

Daeth nifer i’r digwyddiad gan gynnwys arweinwyr y cyngor, y lluoedd arfog, sgowtiaid, cadetiaid a'r gymuned leol ar y 6ed o Fehefin.

Received £1,000 towards a Remembrance D Day event held on Parys Mountain, marking the 80th anniversary.

The event was very well attended by council leaders, armed forces, scouts, cadets and the local community on 6 June.














# NRS economiadd-gymdeithasol / NRS socio-economics

## Parc Gwyddoniaeth MSParc




Wedi diogelu £389,000 gan NRS dros y tair blynedd nesaf er mwyn parhau i gyllido'r Tîm Carbon Isel, yn dilyn arian blaenorol gan yr NDA. Bydd y rolau yma yn rhai cynaliadwy yn dilyn cwblhad o'r ail adeilad.

Mae'r tîm yn cynnig cefnogaeth ehangach i gwmnïau tenantiaid ac yn parhau i sicrhau'r potensial o'r sector carbon isel ac ecosystem Gogledd-orllewin Cymru er mwyn cyflenwi effaith economaidd.

## MSParc Science Park

Secured £389,000 from NRS over the next three years to continue funding the Low Carbon Team, following previous NDA funding. The roles will be sustainable going forward on completion of the new second building.

The team offers enhanced support to tenant companies  and continue to maximise the potential of the low carbon sector and ecosystem of North-West Wales to deliver economic impact.

# NRS economiadd-gymdeithasol / NRS socio-economics

**Cyngor Tref Caergybi** wedi derbyn £1,000 i archebu llochesau cynaliadwy gyda brand NRS. Mae gwirfoddolwyr o gefndiroedd amrywiol yn croesawu twristiaid o'r llongau mordeithio i Borthladd Caergybi. Croesawyd 24,000 o deithwyr mordeithio yn 2023, gyda disgwyliad o fwy eleni.

---

**Holyhead Town Council** received £1,000 to purchase NRS branded sustainable gazebos. Volunteers of diverse backgrounds welcome tourists from the cruise ships into Holyhead Port. 24,000 cruise passengers were welcomed in 2023, with more expected this year.

Mae Adroddiad Blynyddol Economaidd-Gymdeithasol Grŵp yr NDA ar gyfer 2023/24 bellach yn fyw ar gov.uk. Gweler y ddolen isod: NDA socio-economic report 2023 to 2024 - GOV.UK (www.gov.uk)

The NDA Group Socio-Economic Annual Report for 2023/24 is now live on gov.uk. Please see link below: NDA socio-economic report 2023 to 2024 - GOV.UK (www.gov.uk)

Please contact Mair Jones or Elin Parry Jones (good neighbour level) regarding applications, details at **www.gov.uk/government/collections/nrs-working-with-our-communities**

NDA | NRS Nuclear Restoration Services




# Unrhyw gwestiynau?

# Any questions?

